

## Nodiadau Canllaw ynglŷn â Secstio/Delweddau Rhywiol a Gynhyrchir gan Bobl Ifanc

1. Fe ddylai **diogelwch plant** fod yn brif ystyriaeth wrth ddelio â secstio. Os oes pryder bod plentyn wedi'i niweidio neu â'r risg o gael ei niweidio, dylid atgyfeirio'r mater at Uned Amddiffyn y Cyhoedd (UAC) yr Heddlu. Fe ddylai Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CRhB) fod yn flaenllaw mewn unrhyw ymchwiliad – os oes unrhyw amheuaeth, dylid ceisio cyngor arbenigol gan UAC yr Heddlu.
2. Mae secstio yn drosedd sy'n digwydd pan fo person yn tynnu, gwneud, caniatáu gwneud, dosbarthu, dangos, bod ym meddiant, a bod ym meddiant gyda'r bwriad o ddosbarthu, neu i hysbysebu lluniau neu ffug-luniau anwedus o unrhyw berson sydd o dan 18.  
Fel arfer mae hyn yn digwydd pan fo plant a phobl ifanc yn defnyddio technoleg ddigidol, i dynnu neu rannu delweddau anwedus (lluniau disymud a/neu fideos) o'u hunain – a elwir yn hun-luniau – neu eraill. Fe ddosberthir delweddau o'r fath a anfonir at ffôn fel 'creu delwedd anwedus newydd'.
3. Mae troseddau sy'n ymwneud â delweddau anwedus, o'u hunain, neu eraill, yn disgyn o dan Adran 1 Deddf Amddiffyn Plant, 1978; Deddf Troseddau Rhywiol, 2003; Deddf Cyhoeddiadau Anllad, 1959; Deddf Cyfathrebiadau Maleisus, 1988.
4. Diffinnir digwyddiad difrifol gan Reolau Cyfrif y Swyddfa Gartref ar gyfer cofnodi troseddau (Atodiad B 2015/2016 HOCR). Mae hyn yn berthnasol yn benodol i swyddogion heddlu sy'n gweithio mewn ysgolion. Ni all secstio **fyth** fod yn ddigwyddiad Trechu Trosedd Ysgolion.
5. Os ydy'r digwyddiad yn adroddiad trydydd parti, ceisiwch gyngor gan y gellir ei godi fel trosedd yn unol â rheol 3<sup>ydd</sup> parti HOCR 2015/2016.
6. Troseddwr ailadroddus ydy person sydd eisoes wedi dod i sylw'r heddlu ar ddau neu fwy o achlysuron blaenorol, am yr un drosedd. Fodd bynnag, dylid trin pob achos yn ôl ei haeddiant ei hun.
7. Unwaith y bo unigolyn wedi'i wneud yn 'destun' trosedd secstio, gellir dadlennu hyn trwy gais dadleniad manylach yn y dyfodol. Gall hyn gael effaith ar gyflogadwyedd yr unigolyn yn y dyfodol. Mae potensial i enw'r unigolyn sy'n ymwneud â secstio gael ei ychwanegu at y gofrestr Troseddwy'r Rhyw.
8. Dylid sicrhau bod pobl ifanc sy'n ymwneud â hyn yn ymwybodol o'r canlynol: 'Fe'ch cofnodwyd ar systemau'r heddlu gyferbyn â (ychwanegwch y math o drosedd) ac nid ydyn ni (yr Heddlu) wedi cymryd unrhyw gamau pellach yn eich erbyn. Yn y dyfodol, os byddwch angen gwiriad DBS, mae'n annhebygol y datgelir y log hwn oni bai ei fod yn dangos patrwm ymddygiad. Fodd bynnag, mae unrhyw benderfyniad i ddadlennu'n cael ei wneud ar sail yr holl ffactorau a'r wybodaeth sydd ar gael ar adeg y penderfyniad.'
9. Dydy Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion Heddlu Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon **ddim yn cefnogi erlyn neu droseddoli plant** am dynnu delweddau anwedus ohonyn nhw'u hunain a'u rhannu.
10. Bydd gofyn cofnodi troseddau yn unol â Safon Genedlaethol Cofnodi Troseddau (NCRS) a Rheolau Cyfrif y Swyddfa Gartref (HOCR).

**Secstio/Delweddu Rhywiol a Gynhyrchir gan Bobl Ifanc**  
(Ni all fod yn ddigwyddiad Trechu Trosedd Ysgolion)

Noder: Y cyngor ydy **na** ddylai unrhyw ddelwedd gael ei weld gan unrhyw aelod staff heblaw am y swyddog gwarchod plant (DSP). Atafaelwch y ddyfais a'i gadw'n ddiogel. Dilynwch brotocolau'r ysgol.

Rhaid i ysgol gynnal ei gweithdrefnau diogelwch ei hunain. Ystyriwch risgiau CRhB posib.

**Ymateb yr ysgol**

Riportiwch i'r Heddlu trwy 101 **neu** cysylltwch â Swyddogion Cymuned Ysgol yr Heddlu (SCYH) am arweiniad. Mae secstio yn fater difrifol ac fe gaiff ei gofnodi ar systemau'r Heddlu.

Ymateb yr ysgol

Ymateb yr heddlu

**Ymhob achos, rhaid cofnodi digwyddiad newydd a dilyn llwybrau amddiffyn a throsedd.**

**Amddiffyn**

**Rhaid** hysbysu Uned Amddiffyn y Cyhoedd o'r **holl** blant a phobl ifanc sydd ynghlwm â'r digwyddiad

Disgwyl diweddariad gan UAC ac asiantaethau eraill

**Trosedd**

(Gweler nodiadau 1-10)

Rhaid cofnodi trosedd yn erbyn pob dioddefwr/troseddwr a'i ymchwilio. Diogelu a chadw tystiolaeth. Rhaid cysylltu'r holl ddioddefwyr a'r troseddwr â'r digwyddiad.

Ai troseddwr ail-adroddus ydy hwn/hon? A oes oedolyn yn gysylltiedig â hyn oll?

Ydy

Nac ydy

Ystyriwch erlyn am CRhB

Cysylltwch â CID

Gwnaed penderfyniad i beidio ag erlyn – trosglwyddo i SCYH ar gyfer YA ac ymateb addysgol

**Ymdriniaeth Adferol**  
Dioddefwr/ Troseddwr yn cyfarfod â phartion perthnasol

**Education**  
Gwers secstio /gwasanaeth cyffredinol i'r ysgol a mewnbwn penodol i'r dioddefwr/troseddwr

Dylid cau'r digwyddiad gyda chod/deilliant terfynu (Deilliant 21). fel a ddiffinnir yn Adran H o'r Rheolau Cyffredinol yn Rheolau Cyfrif y Swyddfa Gartref

Gweler nodiadau drosodd